OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1339

# Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

## RHAN 7

## Staffio

### Addasrwydd staff

**29.**—(1) Ni chaiff y darparwr awdurdod lleol—

(a) cyflogi person o dan gontract cyflogaeth i weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny,

(b) caniatáu i wirfoddolwr weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny, nac

(c) caniatáu i unrhyw berson arall weithio yn y gwasanaeth mewn swydd y gall, yng nghwrs ei ddyletswyddau, gael cysylltiad rheolaidd ynddi â phlant sy'n cael gofal a chymorth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i weithio yn y gwasanaeth oni bai—

(a) bod y person yn addas o ran ei uniondeb ac o gymeriad da,

(b) bod gan y person y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith y mae i'w wneud,

(c) bod y person, oherwydd ei iechyd, ar ôl i addasiadau rhesymol gael eu gwneud, yn gallu cyflawni'n briodol y tasgau sy'n rhan annatod o'i rôl,

(d) bod y person wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol, yn ôl y digwydd, mewn cysylltiad â phob un o'r materion sy'n ofynnol o dan baragraffau 1 i 9 o Atodlen 3, a bod yr wybodaeth hon neu'r ddogfennaeth hon ar gael yn y gwasanaeth i Weinidogion Cymru edrych arni, ac

(e) pan fo'r person wedi ei gyflogi gan y darparwr awdurdod lleol i reoli'r gwasanaeth, o 1 Medi 2022, fod y person wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol(**1**) â Gofal Cymdeithasol Cymru.

(3) Rhaid i gais gael ei wneud am dystysgrif GDG briodol gan neu ar ran y darparwr awdurdod lleol at ddiben asesu addasrwydd person ar gyfer swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1). Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r person sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel gwasanaeth diweddaru'r GDG).

(4) Pan fo person sy'n cael ei ystyried ar gyfer swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, rhaid i'r darparwr awdurdod lleol wirio statws tystysgrif GDG y person at ddiben asesu addasrwydd y person hwnnw ar gyfer y swydd honno.

(**1**) *Gweler* adran 79(1)(b) o Ddeddf 2016 am y diffiniad o "rheolwr gofal cymdeithasol".

(5) Pan fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, rhaid i'r darparwr awdurdod lleol wirio statws tystysgrif GDG y person o leiaf bob blwyddyn.

(6) Pan na fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, rhaid i'r darparwr awdurdod lleol wneud cais am dystysgrif GDG newydd mewn cysylltiad â'r person hwnnw o fewn tair blynedd i ddyroddi'r dystysgrif y gwneir cais amdani yn unol â pharagraff (3) ac wedi hynny rhaid i geisiadau pellach o'r fath gael eu gwneud o leiaf bob tair blynedd.

(7) Os nad yw person sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach o ganlyniad i beidio â bodloni un neu ragor o'r gofynion ym mharagraff (2), rhaid i'r darparwr awdurdod lleol—

(a) cymryd camau gweithredu angenrheidiol a chymesur i ddiogelu plant, a

(b) pan fo'n briodol, hysbysu—

(i) Gofal Cymdeithasol Cymru,

(ii) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.